# Neges Heddwch ac Ewyllys Da yr Urdd
# Urdd Peace and Goodwill Message



## Neges Heddwch ac Ewyllys Da yr Urdd 2021 – Cydraddoldeb i Ferched

Hawliau merched yw hawliau dynol
Hawliau dynol yw hawliau merched
Ni allwn achub y byd os nad yw'r byd yn gyfartal

Mae hyn yn fwy na hashtag.

Ail-feddyliwn ein geiriau
Trown y negyddol yn gadarnhaol

Nid pengaled ond pwerus.
Nid hunanbwysig, ond hyderus.
Nid cegog ond awdurdodol
Nid emosiynol ond angerddol

Ni yw ieuenctid Cymru yn sefyll gyda'n chwiorydd ar draws y byd

Mae coronafeirws wedi stopio'r cloc.
Defnyddiwn y normal newydd i greu dyfodol gwell.
Dyfodol o addysg i bob merch.
Dyfodol o ferched llawn hyder.
Dyfodol cyfartal, o gefn gwlad i'r dinasoedd,
ar draws y byd.

Ni yw myfyrwyr a disgyblion heddiw
Ni yw arloeswyr ac arweinwyr yfory
Chwalwn y nenfwd wydr gyda'n gilydd,
Dilynwn ein breuddwydion,
Gan ddangos y ffordd i'r genhedlaeth nesaf

Mae hyn yn fwy na hashtag.
Gweithreda er mwyn pob merch.
Fe gyda Hi gyda Nhw gyda Ni.
Does dim terfyn ar ein nerth ni, gyda'n gilydd.

@Urddgobaithcymru    @Urdd

#heddwch2021 / heddwch@urdd.org / www.urdd.cymru